

## Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sicrhau cydraddoldeb

Rydym yn dymuno gweld cymal eithrio sy'n ymwneud ag alcohol yn cael ei ddileu o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.



### Beth yw'r Ddeddf Cydraddoldeb a sut mae'n diogelu pobl rhag gwahaniaethu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ddeddfwriaeth sy'n diogelu pobl rhag gwahaniaethu, yn y gweithle ac mewn cymdeithas yn fwy cyffredinol.[1] Mae'r Ddeddf yn nodi naw nodwedd warchoddedig wahanol, sef agweddau ar hunaniaeth rhywun sy'n eu ffurfio fel unigolyn. Mae'r rhestr hon yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Wedi hyn, dan y Ddeddf Cydraddoldeb, rydych yn cael eich diogelu rhag gwahaniaethu mewn perthynas ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig a byddwch yn cael eich trin yn deg yn y gweithle.

Fodd bynnag, nid yw'n diogelu pobl sydd â dibyniaeth ar alcohol. Yn y Ddeddf, mae'n eithrio alcohol yn benodol, gan nodi 'na chaiff bod yn gaeth i alcohol, nicotin neu unrhyw sylwedd arall ei drin fel rhywbeth sy'n cyfateb ag amhariad at ddibenion y Ddeddf'.[2] O ystyried rhestr y nodweddion gwarchoddedig a enwyd uchod, ceir ffurfiau o ddibyniaeth ar alcohol sy'n bodloni'r meini prawf sy'n ymwneud ag anabledd. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r eithriad a nodwyd, ni fydd pobl sydd â dibyniaeth ar alcohol ar hyn o bryd, neu ddibyniaeth hanesyddol, yn cael unrhyw ddiogelwch rhag gwahaniaethu o gwbl, ar sail cyswll Llywodraeth y DU ei fod yn 'hunananwythol'.[3] Rydym yn llwyr anghytuno â'r datganiad hwn. Nid oes unrhyw un yn dewis mynd yn ddibynol ar alcohol ac i'r rhai sy'n cael problemau gydag alcohol, mae datgelu hyn yn aml yn broses anodd iawn ac sy'n un flinderus ar lefel emosiynol, heb ystyried risg ychwanegol gwahaniaethu, felly dylid ei gynnig, ac mae'n haeddu cael cymorth. O'i chymharu â chymheiriaid rhyngwladol gan gynnwys Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau, mae cyfraith y DU ar ei phen ei hun o ran ei safiad i eithrio dibyniaeth ar alcohol o fewn cyfraith gwahaniaethu.[3]

### Beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu?

Yn 2022-23, adroddwyd bod 44% o oedolion 16 oed a throsodd yn yfed alcohol o leiaf un diwrnod yr wythnos yng Nghymru. Yn ychwanegol, adroddodd 7% o ddynion a 4% o fenywod eu bod yn yfed bron bob dydd.[4] Lle'r oedd y prif sylwedd a oedd yn achosi problemau yn hysbys wrth y pwynt atgyfeirio, roedd alcohol yn gyfrifol am 53% o'r holl atgyfeiriadau yng Nghymru, sy'n golygu bod dros naw mil o bobl wedi manteisio ar wasanaethau trin er mwyn cael cymorth gyda'u defnydd o alcohol.[5] Yn ystod 2022-23, roedd Cymru wedi cofnodi bod cyfanswm o 8,464 o bobl wedi cael eu hanfon i'r ysbyty oherwydd cyflwr a oedd yn ymwneud ag alcohol yn benodol, a ddiffinnir fel cyflyrau, megis clefyd alcoholaidd yr afu, y mae 100% ohonynt yn cael eu priodoli i ddefnyddio alcohol.[6] Er bod y ffigwr hwn wedi gostwng 18.6% dros y 5 mlynedd ddiwethaf, ceir swm sylweddol o bobl o hyd, 271 fesul 100,000, sy'n dioddef cyflyrau o ganlyniad i'w defnydd o alcohol ac felly, sydd mewn perygl o ddioddef gwahaniaethu oherwydd bod y gyfraith bresennol yn eu hesgeuluso.

Yn ogystal, cofnodwyd 486 o farwolaethau a oedd yn ymwneud ag alcohol yn benodol yng Nghymru yn 2022 [7], ffigwr uwch nag a gofnodwyd erioed o'r blaen, ac amlygwyd patrymau yfed trymach yn ystod pandemig Covid-19 fel rheswm posibl dros hyn.[8]

### Ffeithiau allweddol



Mae dibyniaeth ar alcohol wedi'i eithrio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn benodol, gan gynyddu'r perygl y bydd y rhai sy'n cael eu heffeithio gan faterion o'r fath, yn profi gwahaniaethu.



O'i chymharu â gwledydd eraill, gan gynnwys yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia a Seland Newydd, y DU yw'r unig un sy'n eithrio dibyniaeth ar alcohol yn ei chyfraith ynghylch gwahaniaethu.



Mae'r cam o eithrio alcohol yn ategu stigma tuag at bobl sy'n defnyddio sylweddau, sy'n gweithredu fel rhwystr arwyddocaol wrth geisio cymorth.

## Pam nawr?

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn gweithredu fel ffurf o stigma sy'n gallu rhwystro pobl rhag ceisio cymorth ar gyfer eu defnydd o alcohol. Efallai na fydd pobl y gallent gael budd gan gymorth o'r fath, yn dymuno datgelu eu defnydd o alcohol i'w cyflogwyr oherwydd eu bod yn ofni na fyddent yn cael cymorth digonol neu y byddent hyd yn oed yn colli eu swydd. Yn ei dro, gallai hyn arwain atynt yn methu ymgysylltu â gwasanaethau trin defnyddio sylweddau ac o ganlyniad, gallai arwain at arwahanrwydd pellach a niwed ychwanegol.

Yng ngoleuni nifer uwch nag a welwyd erioed o'r blaen o farwolaethau yng Nghymru a oedd yn gysylltiedig â defnyddio alcohol, y cynnydd a adroddwyd mewn arferion yfed mwy niweidiol yr oedd cysylltiad cryf rhyngddo a phandemig Covid-19 nas gwelwyd ei debyg o'r blaen, yn ogystal â nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau defnyddio sylweddau a'r niferoedd sy'n mynd i ysbytai am broblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol, rydym yn teimlo bod nawr yn amser delfrydol i lobïo dros waredu'r cymal eithrio sy'n ymwneud ag alcohol o'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan ddiogelu swm sylweddol o bobl rhag gwahaniaethu posibl, yn ogystal â'r rhai na chânt eu hystyried o fewn setiau data amrywiol.

Ceir sawl rheswm pam fydd rhywun yn mynd yn ddibynol ar alcohol efallai, o wynebu sefyllfa lle y mae perthynas yn chwalu a chyfnodau o iechyd meddwl gwael, i brofi digwyddiadau trawmatig a phrofedigaeth, yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau ysgogol eraill. Yn aml, gall defnydd rhywun o sylweddau fod yn ymateb i sefyllfa neu ddigwyddiad. O ystyried hynny, mae'n anodd dadlau yn erbyn rhywun sy'n cael problemau gydag alcohol, y maent yn haeddu cael eu trin gydag urddas a pharch a'u cynorthwyo trwy gydol y broses. Fodd bynnag, dan y Ddeddf Cydraddoldeb bresennol, ni chaiff cyflogai eu diogelu rhag gwahaniaethu, felly maent mewn perygl o fynd yn ddi-waith ar adeg pan fydd angen cymorth arnynt fwyaf.

At hynny, pe bai'r olaf yn digwydd, gallai hyn arwain at ddirywiad yn iechyd a lles rhywun yn ogystal â phroblemau ariannol a llai o ymdeimlad o berthyn a diben, y mae nifer yn uniaethu â hyn wrth fod yn y gweithle. Gall arwain at effeithiau ychwanegol sy'n gwahaniaethu hefyd, a allai ddatsefydlogi bywyd rhywun ymhellach, megis tai a chyflogaeth yn y dyfodol.

O ystyried Cynllun Dychwelyd i'r Gwaith Llywodraeth y DU [9], sy'n ceisio sicrhau bod pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, anabledau neu sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, yn chwilio am waith ac yn parhau mewn gwaith, gallai gwaredu'r eithriad hwn sy'n gwahaniaethu eu helpu i gyflawni eu targedau. Gall sicrhau hefyd bod y rhai sy'n cael eu heffeithio gan ddefnyddio alcohol yn gallu teimlo'n hyderus i ddatgelu eu sefyllfa i'w cyflogwyr, heb ofni gwahaniaethu, a gall hyn eu helpu i gael y cymorth y mae gofyn iddynt ei gael yn y pen draw.

## Beth mae Barod wedi ei wneud a beth yw ein camau nesaf?

Rydym yn cydnabod bod gwaredu'r eithriad alcohol yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn rhywbeth na allwn ei wneud ar ein pen ein hunain, ac rydym yn croesawu cymorth ychwanegol wrth lobïo i ofyn am hyn. Rydym yn cydnabod deiseb Alcohol Change UK i Lywodraeth y DU am y mater hwn ac fel sefydliad, rydym wedi rhoi ein cefnogaeth i hyn. Gan symud ymlaen, bwriadwn feithrin partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn gweithio tuag at ganlyniad llwyddiannus a allai gynnig budd i filoedd o bobl ar draws Cymru.

### Beth ydym yn ei ddymuno?

- Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i godi'r eithriad alcohol yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a fyddai'n lleihau'n sylweddol y stigma a brofir gan bobl sy'n byw gyda dibyniaeth ar alcohol ac a fyddai'n eu cynnwys yn y diogelwch a ddarparir gan y ddeddfwriaeth.
- Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gael datganiad unedig i gefnogi'r cam o godi'r eithriad alcohol o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 a chefnogi ein gweithgarwch i lobïo Llywodraeth y DU.

## Cyfeiriadau

1. Equality and Human Rights Commission (2018) [Equality Act 2010](#).
2. [The Equality Act 2010 \(Disability\) Regulations 2010, Part 2, Regulation 3](#)
3. Alcohol Change. [The Equality Act: Can you help us change the law?](#)
4. [National Survey for Wales](#)
5. Welsh Government (2021) [Treatment Data - Substance Misuse in Wales 2020-21](#)
6. Public Health Wales (2024) [Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2022-23](#)
7. Office for National Statistics (2024) [Alcohol-specific deaths in the UK: registered in 2022](#)
8. The Guardian (2024) [Heavier drinking during Covid led to 2,500 more deaths from alcohol in 2022 – ONS](#)
9. UK Government (2023) [Employment support launched for over a million people](#)